# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Ionawr 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 4 £1




Cyfarchion y flwyddyn newydd i'n holl ddarllenwyr. Diolch i chi am gefnogi *Llais Llandyrnog Voice* ac am chwarae'ch rhan yn y gymuned. Y gobaith ydy cynyddu'r nifer sy'n cael eu gwerthu gan fod y siop ar agor eto.

Rydym yn gwerthfawrogi'r erthyglau rydym yn eu derbyn – dyna sy'n rhoi naws arbennig i'r *Llais*! Gorau po fwyaf, felly daliwch ati!

Mawr yw ein dyled i'r tîm bach o ran nifer sy'n rhoi'r cylchgrawn at ei gilydd bob mis – yn gydlynwyr, cysodwyr, cyfieithwyr – hebddyn nhw, byddem ni ddim yn bodoli. Os ydych yn gallu'n helpu ni mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â ni – byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Gobeithio y bydd 2025 yn dod â hapusrwydd i'n bywydau ni i gyd, a bod Llandyrnog yn parhau'n gymuned glòs, sy'n ei galluogi i ffynnu.

Ruth Griffith
Cadeirydd Pwyllgor *Llais Llandyrnog Voice*




Mae'r gwanwyn yn dod yn gynnar i Landyrnog. Dyma genhinen a flodeuodd ym Maes y Wern ar 6 Rhagfyr – wyth diwrnod yn gynharach na'r llynedd. Gobethio bydd rhai'n dal i flodeuo ar gyfer 1 Mawrth!

# Pytiau newyddion



**Pen-blwydd Priodas Platinwm**
Llongyfarchiadau calonnog i Elwyn ac Olga, Ger y Llan ar ddathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol ar 1 Ionawr 2025.

**Cydymdeimlwn** â theulu Rob Dowell a fu farw ddiwedd mis Rhagfyr. Roedd yn gymeriad adnabyddus iawn yn y pentre ac yn bêl-droediwr heb ei ail pan oedd ar ei orau, yn chwarae i Dre Rhuthun a thîm Llandyrnog yng Nghynghrair yr Haf. Bydd CPD Llandyrnog yn cael eiliad o gymeradwyaeth i gofio Rob cyn dechrau eu gêm gartref yn erbyn CPD Y Glannau, ddydd Sadwrn, 4 Ionawr.



Dyma Rob yn darparu'r adloniant ar ôl y daith gerdded ym mis Awst i godi arian at Gŵn Tywys. Roedd Alba, ci tywys Rob wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w fywyd. Roedd y gefnogaeth i'r digwyddiad yn dangos y gwir barch a oedd gan y pentrefwyr iddo, a chodwyd £2047.

**Diolch** i bawb am yr ymateb ardderchog i'r bore coffi i godi arian i gefnogi teulu Aiden, disgybl yn Ysgol Bryn Clwyd sy'n cael triniaeth am lewcemia yn Ysbyty Alder Hey – codwyd £500. Dyma nodyn gan y teulu a ddaeth trwy law Ben Lindquist, Pennaeth Ysgol Bryn Clwyd:

> *Aiden's family are extremely grateful and humbled by the support of our wonderful community. They are overwhelmed by the generosity of so many and it has meant the world to Aiden. A huge thank you to you all!*



Diolch yn fawr i bawb a brynodd ddyddiad i ennill cwilt Nadoligaidd, a oedd wedi'i arddangos yn siop Tŷ Ceffyl Bach. Yr enillydd oedd Scarlett Tynan a ddewisodd 22 Awst. Codwyd £210 tuag at Llan Llanast Llandyrnog. Diolch yn arbennig i Angie a Graham (ac ŵyr Graham) yn Tŷ Ceffyl Bach am arddangos y cwilt a gwerthu'r dyddiadau.

*Carolyn Langford Jones*

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| 5$^{ed}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 12$^{fed}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 19$^{eg}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 26$^{ain}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 6ed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 7fed | Clwb Llyfrau, 10am |
| Mer | 8fed | Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog |
| Llun | 13eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | 15fed | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | 20fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 21ain | Clwb Llyfrau, 10am (os bydd y tywydd yn ffafriol)<br>Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| Llun | 23ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 12.30pm |
| Sul | 9.30am – 12pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad 4ydd | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 6ed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 8fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 11eg | Bore coffi – Spinal Injuries Association | 10–11.30pm |
| Llun 13eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 14eg | Cyfarfod y Pony Club | 7.30–8.30pm |
| Mer 15fed | Y Gymdeithas Hanes – Ffilm: *The Lady in the Wardrobe*, Tony Griffiths | 7.00–9.30pm |
| Sad 18fed | Parti pen blwydd | 2.30–5pm |
| Llun 20fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 22ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Llun 27ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 29ain | Pilates | 7.15–8.15pm |

I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

# Hanesion Landi 70 oed

Mae Bryn, fy mherchennog, wedi bod yn ymchwilio i fy hanes, a fy mraint i yw ei rannu â chi. Dydi fy hanes i erioed wedi cael ei gyhoeddi – dyna gyffrous!

Fe ddes i oddi ar y llinell gynhyrchu yn Birmingham, 9 Tachwedd 1954, ac o fewn wythnos roeddwn i mewn lle posh yn yr Amwythig – gwerthwyr ceir Vincent Greenhouse. Roeddwn yno am ychydig wythnosau cyn i Mr John Edwards, o The Buttery, Wellington ger yr Amwythig, fy mhrynu i a mynd â fi adre. Rhaid ei fod yn ddyn cyfoethog iawn oherwydd fy nghost yr adeg honno oedd rhyw £500.

Beth bynnag doedd dim angen poeni, fe ges i gyfnod hapus iawn yno am ddwy flynedd cyn i Mr Instone o Brosely fy mhrynu. Wedyn bues i'n cario ffrwythau a llysiau i Mr Jukes o Lydbury North – gwaith digon hawdd, a dweud y gwir.

Dwi'n lwcus iawn fy mod i'n dal i fod yn fyw – mae llawer o fy ffrindiau a ddaeth oddi ar y llinell gynhyrchu yr un diwrnod wedi'u gwerthu i weithio i adeiladwyr neu i gwmnïau oedd yn tynnu cerbydau eraill. Buon nhw'n gweithio'n galed iawn a dydyn nhw ddim efo ni ddim mwy, yr iard sgrap oedd eu diwedd nhw. Cafodd y rhan fwyaf ohonyn nhw eu hanfon dramor i gario unrhyw beth o fambŵ i fananas.

Mae Bryn yn cwyno nawr ac yn y man fy mod i braidd yn sychedig, ond dwi'n ei atgoffa fy mod wedi fy ngwneud pan oedd petrol yn bum swllt y galwyn – nid £6.20. Ond dwi ddim yn rhy hoff o'r stwff isel mewn *octane*. Mae Bryn yn ychwanegu ychydig o *go-go juice* i'r disel i wneud i roi ychydig o wmff i fi. Dwi'n tueddu i dagu rhyw ychydig yn y bore, ond pan dwi wedi cynhesu, dwi'n iawn.

Peidiwch â 'nghamddeall i, dwi ddim y peth hardda welodd wyneb daear, o gwbl. Dwi'n casáu pan mae dynion yn fy myseddu ac yn cyfrif fy rhybedi (neu *rivets*, i chi a fi), yn gofalu eu bod y siâp iawn ac yn y lle iawn. Rhowch lonydd i mi fod yn fy nillad gwaith.




Mae Bryn yn swnian am rywbeth rownd y ril. Roedd yn cwyno y diwrnod o'r blaen am gost fy nheiars newydd, ond fe ddwedais i wrth y byddan nhw'n para'n hirach na ti, mêt! A does dim treth cerbyd na'r prawf MOT ofnadwy pan mae dyn yn fy mhrocio, yn fy mhwnio ac yn ysgwyd pob peth, a bron â sefyll ar fy mrêcs i wneud i mi stopio'n sydyn. Ond mae Bryn yn mynd â fi am MOT bach ysgafn, i ofalu fy mod i'n ddiogel i fod ar y ffordd a ddim yn debygol o frifo neb.

Dwi wedi cael bywyd da iawn yma yn Llandyrnog. Mae Bryn yn fy nghadw i mewn sied braf gynnes ac rydyn ni wedi cael sawl antur gyda'n gilydd.

Roedd angen côt newydd arna i i'w rhoi dros fy nghefn, ac oherwydd fy mod i'n siâp anarferol, roedd yn rhaid cael un wedi'i gwneud yn arbennig i fi. Fe aethon ni'r holl ffordd i Lanfairfechan – mae hynny'n bell iawn i fi, ond a bod yn deg â Bryn, fe arhosodd ger y môr ym Mae Colwyn i ofalu fy mod i'n iawn, ddim yn rhy boeth, a bod fy olew'n iawn. Dwi'n meddwl ei fod wedi diflannu rywle am goffi hefyd wrth i fi ymbaratoi (gair da!) am ail hanner y daith ryfeddol hon. Doeddwn i ddim yn hapus oherwydd roedd pawb yn mynd heibio i fi, ond roeddwn i'n gwneud fy ngorau. Chware teg i Bryn, fe aeth â fi adre dros fryn a dôl, yn lle'r hen A55, gan aros yma ac acw i fwynhau'r olygfa ac oeri ychydig. Dwi'n hapusach o lawer yn teithio ar 40 m.y.a.

# Hanesion Landi 70 oed: parhad

Dwi'n cofio mynd ar antur i Ysbyty Ifan, o bob man, dros Hiraethog, meddai Bryn wrtha i (rydych chi'n byw mewn lle hardd iawn). Roedd Yncl Phil gyda ni'r diwrnod hwnnw ac roedd rhaid i fi weithio ychydig yn galetach i gario'r ddau ohonyn nhw. Buon nhw'n gweiddi ar ei gilydd yr holl ffordd a chwerthin am yn ail, felly mae'n rhaid nad oedden nhw'n dadlau. Dwi wedi clywed fy mod i ychydig yn uchel fy nghloch hefyd, efallai mai dyna pam roedden nhw'n gweithio. Fe ges i fynd am dro gyda rhai o ffrindiau tractor Bryn, ac aros ym Metws y Coed am hufen iâ – er mwyn iddo fo a fi oeri. Yn ôl â ni i Ysbyty, ac fe ges i *rosette*. Dwi ddim yn siwr pam ges i hwn, a dweud y gwir – am gyrraedd yno, mae'n siŵr. Rwy'n falch iawn o fy *rosette*, yr unig un sy gen i.

Digwyddodd rhywbeth a gododd gywilydd mawr arna i yn sioe Llanrhaeadr unwaith. Roedden ni wedi bod allan gyda ffrindiau Bryn ac fe aethon ni i'r prif gylch ar unwaith. Roedd y cylch yn fach iawn, gyda chorneli sgwâr. Dwi'n ferch fawr ac mae angen llawer o le arna i i droi – cae cyfan. Er mawr gywilydd i mi, pan gyrhaeddais i gornel y cylch, roedd yn rhaid i mi fynd yn fy ôl i allu mynd rownd y cornel a dilyn y tractor o 'mlaen i. Dysgais fy ngwers a dwi wedi torri pob cornel ers hynny.

O diar, bu bron i mi fynd ar dân unwaith. Wrth i ni fynd tua'r Ponderosa am ginio unwaith, dyma hi'n dechrau bwrw hen wragedd â ffyn. Roedd yn rhaid i Bryn droi'r weipar ymlaen (mae gen i ddau). Bobol bach, fe aeth yn boeth a mwg yn codi ohono. Roedd Coral a oedd gyda ni, yn mynd i gwrdd â'i gwr am ginio, wedi cynhyrfu'n arw ac roedd ei llaw ar handlen fy nrws, yn barod i neidio allan. Chynhyrfodd Bryn fawr ddim gan estyn am y diffoddydd tân, ond roedd cadach tamp yn gwneud y job yn iawn. Wedyn doedd gennym ni ddim weipar, felly roedd yn rhaid i Coral ddweud wrth Bryn pa ffordd i fynd ar hyd lôn gul. Erbyn i ni gyrraedd y Ponderosa, roedd yr haul yn gwenu!

Anfonodd Bryn motor fy weipars at dyn o'r enw Mr Fuggle a gymerodd o oddi wrth ei gilydd a'i ailadeiladu. Bywoliaeth Mr Fuggle yw trwsio motors weipars. Welwch chi, cefais i fy ngwneud ymhell cyn cyfnod y 'gymdeithas wastraffus' ac mae dyn mewn sied sy'n gallu trwsio'r rhan fwyaf o fy narnau os ydw i'n wael – sied 'Fuggle's Fettling' (ie, dyna enw'r cwmni!)

Dro arall roeddwn i'n gofalu am ferch bwysig iawn ar un o deithiau Bryn i godi arian at elusen – Kate Miles, rheolwr The DPJ Foundation. Roedd popeth yn iawn nes i Bryn, am ryw reswm, droi fy olwyn lywio'n rhy gyflym o lawer i'r dde, a syrthiodd y drws oddi ar ei fachau. Wel, am gywilydd! Does gen i ddim gwregysau diogelwch, cofiwch, ond doedd dim angen poeni – troi i'r dde roeddwn i. Petawn i'n troi i'r chwith byddai trychineb wedi digwydd. Diolch byth, chwerthin wnaeth Kate ac mae hi'n dal i atgoffa Bryn am ei phrofiad o deithio mewn Land Rover.

Ond rhaid cyfadde fy mod i'n mwynhau helpu Bryn a'i gyfeillion gyda'r gwaith at elusennau. Maen nhw'n gweithio'n galed i drefnu taith dractorau bob blwyddyn. Fy ngwaith i ydy cario geriach a gwibio o gwmpas i ofalu bod pawb yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Mae'n lot o hwyl, ond dwi'n blino'n ofnadwy – mae fy *cv joints* yn boenus ac mae'n rhaid cael seibiant i ddod dros y daith.

I ble'r af i nesa? Does gen i ddim syniad. Dwi ddim am adael Bryn ac Anwen gan eu bod wedi bod mor ofalus ohona i. Bydd Bryn yn rhy hen cyn bo hir i fynd ar ei dractor bach a dod oddi arno. Mae'n anodd iddo godi'i goes dros y gerbocs, felly pwy ŵyr? Efallai mai fi y bydd o'n ei ddewis ar gyfer anturiaethau'r dyfodol., yn lle'r tractor. Ond dwi'n gwybod bod ganddo Land Rover iau wedi'i guddio yn rhywle. Mae hynny'n fy ngwneud i'n drist – a fydd yn rhoi'r gorau i fy ngyrru i? Mae Anwen yn bendant na fydd o'n gwneud, felly dwi'n gobeithio ei bod hi'n iawn.

*HUJ 432*

# Addunedau'r Flwyddyn Newydd

Holwyd rai o aelodau Sefydliad y Merched am eu haddunedau .
Iona Pierce: Fy adduned yw ceisio gwella perfformiad fy ngheffyl mewn dressage. Mae wrth ei fodd yn neidio, felly bydd yn her.

Viv Rosser: Fy adduned yw mynd i'r gampfa ddwywaith yr wythnos, o leiaf.

Jane Borthwick:
- Cefnogi Doddie Aid eto a gwneud y milltiroedd bob dydd ym mis Ionawr.
- Cerdded a seiclo yn fwy nag rydw i wedi'i wneud yn 2024
- Gwneud rhagor o grefftau
- Paratoi ar gyfer ymddeol drwy weithio dridiau'r wythnos
- Clirio llawer o stwff a chyfrannu llawer o nwyddau i siop elusen Mencap yn Ninbych
- Prynu llai o bethau a lleihau fy ôl troed carbon.

Diolch, ferched – daliwch ati!





**Conservatories**



- Survey, supply and fit:
  - conservatories
  - orangeries
  - verandas
  - porches
  - windows
  - doors

**07546 911871**


# Rysáit

Dyma un o fy hoff bwdinau.

## Meringue eirin gwlanog

**Y gwaelod**
8oz bisgedi digestive
4oz marjarîn
1oz siwgr mân
Malwch y bisgedi, toddwch y marjarîn mewn sosban ac ychwanegwch y bisgedi a'r siwgr.
Taenwch nhw'n llyfn mewn dysgl a'i bobi ar 180 °C am 15–20 munud.

**Y llenwad**
Tun 8 owns o eirian gwlanog
1 owns blawd corn
4 owns siwgr mân
2 melynwy
1 owns menyn
Draeniwch y sudd o'r eirian gwlanog ac ychwanegwch ddŵr ato i wneud ½ peint o hylif.
Rhowch y blawd corn, y siwgr a'r melynwyau mewn powlen, ychwanegwch ychydig o sudd, a'u troi.
Rhowch weddill y sudd mewn sosban, a phan mae bron â berwi, tywalltwch o i'r bowlen a chymysgwch y cyfan.
Rhowch y cymysgedd yn ôl yn y sosban, berwch o, wedyn ei fudferwi am funud.
Cymerwch y sosban oddi ar y gwres ac ychwanegwch yr eirin gwlanog a'r menyn, a'i gymysgu nes bod y menyn wedi toddi.
Rhowch y cymysgedd ar ben y gwaelod bisgedi.

**Y meringue**
2 wynwy
2 owns siwgr mân
Chwisgiwch y gwynwyau, plygwch y siwgr i mewn iddyn nhw, taenwch hyn ar ben yr eirin gwlanog.
Pobwch ar 150 °C am ½ awr.

*Iona Pierce*


**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk

# Ysgol Bryn Clwyd

Roedd Rhagfyr yn fis prysur dros ben.



Cafodd y disgyblion lawer o drîts gan ymweld â phantomeim yn Llandudno a chael pnawn o hwyl am eu gwaith da.



Y tymor hwn, mae'r disgyblion wedi bod yn ennill tocynnau am waith caled ac ymddygiad da tuag at sesiwn gwneud candi-fflos gyda Mr Lindquist.

Gwnaeth Dosbarth Iau gardiau Nadolig a bisgedi sinsir ar gyfer ein cymuned a mwynhau cerdded o gwmpas y pentref yn eu danfon o dŷ i dŷ. .

Daeth Mr Williams (Athro Bro) i ymweld â'r Babanod er mwyn darllen 'chydig yn Gymraeg gyda'r disgyblion.

Gwnaeth Miss Gemma *S'mores* gyda phawb yn ystod sesiwn ola'r flwyddyn o'r Ysgol Goedwig.



Daeth nifer fawr o bobl i'n gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Sant Tyrnog.



Diolch i bawb yn ein pentre sy wedi dweud helô neu ymuno â ni mewn digwyddiad y mis hwn, a dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb!

# Capel y Dyffryn




**Y Gymdeithas** Nos Lun 2 Rhagfyr croesawodd Dafydd y gŵr gwadd, Robin Davies, Llanbedr, peilot gydag EasyJet ers 30 mlynedd. Cawsom sgwrs ddiddorol ac addysgiadol dros ben wrth iddo olrhain hanes ei hyfforddiant a'i brofiadau hedfan dros y blynyddoedd. Roedd Robin yn dathlu pen blwydd arbennig y diwrnod cynt, ac un syrpréis bach gafodd oedd cael cacen pen blwydd, gyda llun o awyren EasyJet ar ei thop! Diolchwyd i bawb gan Gwenno.



Diolch i bawb am gefnogi'r Bore Coffi 30 Tachwedd yn y Neuadd, pan wnaed elw o £427.

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 05/01 | 10.00 | Oedfa Bro –Dinbych |
| 12/01 | 10.00 | Cyfarfod Gweddi |
| 19/01 | 9.45 | Parch Andras Iago |
| 26/01 | | Dim gwasanaeth |

**Gwasanaeth Nadolig y Plant**
Nos Sul 15 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y Plant. Cafwyd neges y Dolig gan y plant a'r ieuenctid – y plant yn eu gwisgoedd pwrpasol. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd dawns ballet yn cyfleu'r angylion, ac unawdau hyfryd gan Gwenan a Nest gyda Lona wrth y piano. Diolchwyd i Gwenno a'r rhieni eraill gan Gwyneth Evans am wasanaeth hyfryd.

Yn dilyn, cafwyd Parti Nadolig yn y Festri. Ar ôl gwledd, roedd y plant wrth eu bodd yn croesawu Sion Corn a'i anrhegion. Yna mwynhawyd y gemau arferol.



*Llongyfarchiadau i Buddug ac Alan ar eu pen blwydd priodas aur ym mis Rhagfyr.*

# Llan Llanast

Yn ein cyfarfod fis Rhagfyr roeddem yn edrych ymlaen at y Nadolig. Gwnaethom ni nifer o wahanol weithgareddau yn ymwneud â'r Dolig, yn cynnwys adeiladu preseb i'r Baban Iesu, gwneud Mair allan o lwy bren , lanterni, coronau, angylion, a defaid wrth gwrs, heb anghofio glanhau baw'r asyn! Ar ddiwedd pnawn prysur, aeth pawb at y stabl, lle bu'r plant yn helpu'r Parch. Sam i adrodd y stori ryfeddol hon unwaith eto. Dywedodd y Parch. Sam fod Iesu'n cael ei adnabod fel Goleuni'r Byd, a rhoi glôb wedi ei goleuo i ni er mwyn i ni fedru pasio'r Goleuni i'n gilydd.



Ni fydd Llan Llanast ym mis Ionawr, ond byddwn yn ôl 9 Chwefror, felly dewch atom ni i gael ymuno yn yr hwyl!

# Gild Trefoil

Mwynhaodd yr aelodau Ginio Dolig hyfryd yng Nghaffi Cariad, Hosbis St Cyndeyrn, Llanelwy. Roedd y Santa Cudd yn gyffrous iawn!! Ar ddiwedd y flwyddyn roedd dau aelod newydd wedi ymuno â ni. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Chwarae Dartiau dros Gymru




Bydd dydd Iau, 28 Tachwedd yn aros yng nghof Theo Vaughan, 15 oed, am byth. Ar y diwrnod hwnnw cynrychiolodd Gymru ym Mhencampwriaeth Byd y Gorfforaeth Dartiau Iau yn Gibraltar.

Yn ôl Theo, dyma wythnos orau ei fywyd. Roedd yn ddigwyddiad pum niwrnod, a chafodd Theo gyfle i chwarae yn erbyn chwaraewyr ifanc gorau'r byd ac i greu cyfeillgarwch â nhw.

Hefyd cafodd gyfarfod â Luke Littler, chwaraewr y mae'n ei barchu'n fawr iawn. Roedd Luke yno i gyflwyno'r tlws roedd o ei hun wedi ennill y flwyddyn flaenorol.

Ychwanegodd Theo mai uchafbwynt ei wythnos oedd teimlo mor falch wrth gerdded allan gyda'i gyd-aelodau o dîm Cymru a'r hyfforddwyr y tu ôl i faner Cymru, i gyfeiliant trac sain *Yma o Hyd*.

Profiad gwirioneddol hudolus ac emosiynol i Theo.

*Alan Vaughan*

# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod mis Rhagfyr, mwynhaom ni Wasanaeth Adfent traddodiadol â charolau a darlleniadau tymhorol – gan ei ddilyn â mins peis!

# Hanesion Hazel



Dyma stori am fy nghyfaill newydd – Neville. Mae'r ardd yn swatio ar gyfer y gaeaf ac mae'r tywydd gwael yn ddiweddar yn golygu nad ydw i ynddi ryw lawer, ddim ond yn gwneud be sy'n rhaid ac mae fy offer wedi'u cadw'n daclus yn y sied. Hynny yw, heblaw am un fwced fach unig a gafodd ei gadael ger y tap tu allan. Un min nos, fe sylwais ei bod hi'n llawn dŵr glaw, ac fe benderfynais gael gwared arno i lanhau'r fwced yn drylwyr cyn ei rhoi i gadw gyda'r lleill. Dyna syndod a gefais pan symudodd rhywbeth o dan ychydig o ddail a oedd wedi chwythu i mewn i'r fwced ac wedi suddo i'r gwaelod. Creadur bach, llwyd-frown, gyda smotiau tywyll, cynffon hir siâp padl, pedair coes a rhyw bwt o ben. Dwi'n gweld sawl broga yn yr ardd yn sboncio o dan y gwrych i ddianc rhag ysglyfaethwyr, ond nid broga mo hwn. Dyma ymgynghori â Google a deall mai madfall ddŵr gyffredin oedd hi. Dwi erioed wedi gweld un yn fy ngardd a ches i fy synnu ei bod wedi ymgartrefu mewn hen fwced *tubby*. Sut aeth hi i mewn iddi a sut mae hi'n dod allan ohoni? Beth mae hi'n ei fwyta? Cymaint o gwestiynau.

Mae'n amlwg bod Neville o'r farn bod fy mwced yn lle da i aros dros y gaeaf. Rhoddais ragor o ddail ynddi i roi cysgod i Neville ac ychydig o briciau rhag ofn y byddai'n dewis dod allan o'r fwced. Mae wedi bod yno ers ambell wythnos erbyn hyn. Dwi'n gofalu nad yw yn mynd yn brin o ddŵr a dwi'n cadw golwg arni bob dydd.

Mae madfallod wedi'u diogelu yn y Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Yn ôl y Ddeddf, mae hi'n anghyfreithlon gwerthu madfallod dŵr cyffredin, eu cyfnewid am ddim byd arall na'u cludo i'w gwerthu. Beth mae Neville yn ei fwyta? Pryfed, lindys, pryfed genwair a phenbyliaid, ond mae'r rhain yn brin iawn yn y gaeaf. Ydyn nhw'n gaeafgysgu? Ydyn, mae'n debyg. Maen nhw'n chwilio am lefydd cysgodol, o dan boncyffion neu greigiau neu mewn tomenni compost, felly pam mae Neville yn fy mwced? Maen nhw'n amffibiaid felly'n gallu byw ar dir ac mewn dŵr.

Does gen i ddim pwll yn yr ardd: roedd gennym bwll mawr dwfn yn yr ardd yn ein cartref yn Formby, nes i mi syrthio i mewn iddo pan oeddwn i'n 7 neu 8 oed. Roedd fy nhad yn edrych allan drwy ffenest y gegin ar y pryd. Gwelodd beth ddigwyddodd a rhuthrodd allan a fy nhynnu o'r dŵr gerfydd y plethau hir yn fy ngwallt. Roedd fy sgert ysgol wedi codi a chreu poced o aer, felly roeddwn i wedi dod yn ôl i'r wyneb mewn pryd iddo afael yn fy ngwallt. Ar ôl hynny, mynnodd fy mam fod y pwll yn cael ei wacáu ac felly y bu nes i ni fynd oddi yno.

Felly yn ôl at stori fy madfall: mae ffrind sy'n gweithio i'r RSPB yn dweud y bydd yn rhaid iddi ddod o'r fwced, oherwydd wrth i'r tywydd oeri, bydd yn marw petai'r dŵr yn rhewi. Felly bydd yn rhaid i mi dywallt y dŵr o'r fwced yn ofalus o dan wrych cysgodol er mwyn iddi gael hyd i rywle mwy addas i aeafgysgu. Gobeithio'n wir na fydd unrhyw adar, draenogod, neu yn wir, ieir, yn ei bwyta. Mae diwrnod ei rhyddhau'n dod yn nes, ac rwy'n dymuno i Neville, a chithau ddarllenydd annwyl, hapusrwydd a iechyd da yn 2025.

**Hazel**

# Pentrefwyr hael

**£8796** – dyna'r cyfanswm a godwyd gan drigolion Llandyrnog a'r cyffiniau at elusennau yn 2024. Ac mewn dim ond 18 digwyddiad, y mwyafrif o'r rhain yn foreau coffi yn neuadd y pentre. Dyna gyfartaledd o £488 y digwyddiad – mae hyn yn anhygoel gan ystyried mai dim ond 1,103 yw poblogaeth y pentre (ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol y Deyrnas Unedig). Felly, rhowch glod i chi'ch hun am eich cyfraniadau. Bydd nifer o foreau coffi, mae'n siŵr, yn 2025 a bydd eich cefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr unwaith eto.

Mae boreau coffi wedi dod yn ddigwyddiadau cymdeithasol pwysig a phoblogaidd – cyfle i gyfarfod â ffrindiau a chlywed y newyddion diweddaraf. Bydd sawl un ohonoch yn cofio'r boreau coffi yn yr Ystafelloedd Coco – sut ar y ddaear roedd hi'n bosib gwneud hyn mewn lle mor fach, a bod damwain ddifrifol heb ddigwydd wrth rannu paneidiau poeth? Doedd dim diben cael mwy na dwy (gan amla, nid dau!) i wneud y paneidiau – doedd dim lle i ragor o bobl!



*Y bore coffi a gafwyd i lansio rhifyn cyntaf y Llais ym mis Hydref 2015. Llun a fydd yn codi hiraeth, gan fod nifer yn y llun wedi'n gadael ni erbyn hyn – Glenys Evans, Albie Roberts, Gwyneth Roberts, Clwyd Williams, Olwen Roberts, a Mary a Jack Crowther.*

Mae bore coffi yn neuadd y pentre yn brofiad mwy pleserus o lawer. Mae ein diolch i'r Gymdeithas Hanes am fentro trefnu'r bore coffi cyntaf ar ôl cyfnod COVID yn y neuadd, a dechrau arfer newydd. Ond mae llawer mwy o waith wrth gynnal bore coffi yn y neuadd ac rydym yn diolch yn fawr i selogion y sesiwn o osod byrddau a chadeiriau ar y noson cynt – David Kellett, John Rowlands a Bryn Davies. Mae presenoldeb cyson David mewn boreau coffi yn amhrisiadwy, yn enwedig ei wybodaeth am ddefnyddio'r peiriant golchi llestri! Diolchwn hefyd i Margaret Evans a Wyn Wilson am eu gwasanaeth wrth fwrdd y raffl, nodwedd gyson arall o foreau coffi. Mae'r cyfraniadau at wobrau'r raffl yn werth y byd, felly hefyd y cyfraniadau at y stondin cynnyrch cartref.

Felly ymlaen â ni at y flwyddyn nesaf o foreau coffi, a diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch haelioni yn ystod 2024.

**Bore Coffi**

**Dydd Sadwrn, 11 Ionawr, 10-11.30am**

**yn Neuadd y Pentref**

**i godi arian at** sia spinal injuries association – for life after spinal cord injury

***Byddem yn falch o gael nwyddau ar gyfer y stondin cynnyrch cartref – diolch!***


J & G

TYRE SERVICES




Car - Truck - Farm Tyre Specialists

Batteries & Exhausts

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Newyddion MHC Llangwyfan





Mae Hillside View wedi'i drawsnewid o ddau wasanaeth ar wahân a oedd yn cefnogi chwech unigolyn, yn wasanaeth pwrpasol i ddau. Mae hyn yn rhoi lle personol i drigolion, ac yn dal i roi cyfle i wella sgiliau byw o ddydd i ddydd, annibyniaeth a chysylltu ag eraill.

**Hwyl yn yr eira**

Cafodd dau frawd, sy'n byw yn Elm a Beech, hwyl gyda'i gilydd yn gwneud dyn eira, ac edrychwch ar y dyn eira ardderchog. Tystiolaeth o'u hwyl yn cydweithio yng ngwlad hud yr eira.



**Gwobrau efydd**

Cafodd Michaela a Billy, rheolwyr preswyl yn MHC, Wobr Efydd yr un yn seremoni cyflwyno Gwobrau Gofal Cymru yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i chi'ch dau!






**WHEEL BUILDING UK**



MOTORCYCLE
WHEEL BUILDING
SPECIALIST

- Wheel Building
- Spoke Sets
- Aluminium/Chrome/Stainless Rims
- Vapour Blasting
- Metal Polishing
- Powder Coating

MIKE 07455 244 480
mike@wheelbuildinguk.co.uk
www.wheelbuildinguk.co.uk

**Prompt Travel**

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

**Teithiau Prydlon**

Tacsi a Hurio Preifat

# Storm Darragh





Gadawodd Storm Darragh ei hôl ar y pentre, ddydd Sul, 8 Rhagfyr. Bu sawl cartref heb drydan, rhai am sawl diwrnod.




TY CEFFYL BACH

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art
- Unique and quirky gifts to suit all budgets
- **Winter opening hours: 11am-4pm, Thursday–Saturday**




# Tuesday Club

Cafodd yr aelodau ginio Nadolig ardderchog yng nghaffi'r Ddau Ful, Maes Carafanio Llanbenwch, Llanfair DC. Er nad oedd y fwydlen yn un Nadoligaidd draddodiadol, roedd y bwyd yn ardderchog. Diolch yn fawr i Sara a'r holl staff am eu croeso cynnes.

Bydd y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch, brynhawn dydd Mercher, 15 Ionawr yn yr Ystafelloedd Coco. Y siaradwraig wadd fydd Eirian Jones o Gyngor ar Bopeth. Bydd croeso cynnes yn disgwyl aelodau newydd!

# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr o Gyngor Cymuned Llandyrnog

- Er nad oedd swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn bresennol, y cais oedd iddo gadw golwg ar y cyflymder ar y ffordd i Lanychan o Landyrnog, yn sgil digwyddiad diweddar.
- Mae'r fainc wedi'i harchebu a bydd yn cyrraedd ddiwedd mis Ionawr, felly mae hi'n bosib trefnu gosod y sylfaen.
- Mae'r crefftwr lleol, Mr Hession, wedi gwneud bocs newydd i gadw'r offer cyfrifiadurol yn yr Ystafelloedd Coco yn ddiogel.
- Gan fod y cynghorwyr yn gyfranddalwyr yn y siop, mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cais am ganiatâd i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r siop heb ddatgan diddordeb, ac mae hyn wedi'i ganiatáu.
- Ar ôl paratoi cyllideb ddrafft, penderfynwyd bod y cyngor yn gofyn am gynnydd o 5% yn ei braesept, oherwydd chwyddiant a chostau ychwanegol. Dyma'r arian mae'r cyngor yn ei gael gan Gyngor Sir Ddinbych i alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. £12993 yw'r cyfanswm.
- Penderfynwyd gofyn am ddyfynbrisiau gan gyflenwyr trydan. Mae'r tâl sefydlog am drydan yr Ystafelloedd Coco yn dâl cyfradd busnesau sy'n gostus iawn ac efallai bydd rhaid cynyddu'r tâl am logi'r ystafell. Mae'n ymddangos y bydd cyflenwr arall yn golygu arbed tipyn o arian.
- Cynllun busnes drafft – penderfynwyd llunio cynllun busnes i warchod cronfeydd wrth gefn y cyngor cymuned. Mae'r Cyngh. Borthwick wedi paratoi cynllun drafft a fydd yn cael ei gynnig i'w fabwysiadu ar ôl ymgynghori. Bydd yn dangos bod y cyngor cymuned yn gynhwysol ac wedi'i arwain gan y gymuned.
- Er yr amheuaeth a ddylai'r cyngor cymuned dalu'r tâl sefydlog a'r tâl am ddefnyddio dŵr yn y rhandiroedd, penderfynwyd eu talu ar yr amod bod y Cyngor Sir yn agor y rhandiroedd i'r holl drigolion, a heb eu cyfyngu i denantiaid y Cyngor Sir. Byddai angen cynnwys hyn mewn unrhyw gytundeb.
- Roedd dau gais cynllunio i'w trafod:
  - Old Coach House, Plas Bennett – codi gazebo a sied – yn ddi-wrthwynebiad.
  - Wern Farm – wedi gwneud ôl-gais – defnyddio'r stabl i ofalu am gŵn a darparu llety ar eu cyfer, a pharhau i ddefnyddio'r *manage* fel lle i roi ymarfer corff i'r cŵn.

    Mae'r cyngor wedi gofyn nifer o gwestiynau i ganiatáu i aelodau wneud penderfyniad gwybodus, ond nid oedd yr atebion yn glir, yn enwedig o ran goruchwylio'r anifeiliaid dros nos a phroblemau gyda sŵn. Y pethau gorau yw i'r Swyddog Achos benderfynu a yw'r atebion a gafwyd gan asiant yr ymgeisydd yn ateb ei bryderon.
- Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi clirio'r ffos ger Capel Dyffryn ac felly llifodd dŵr yn ystod Storm Darragh ar draws maes parcio'r capel, ac roedd yn rhaid clirio'r dŵr cyn ei bod hi'n bosib ei ddefnyddio. Roedd y dŵr yn dod o gyfeiriad Cross Keys. Esboniodd y Clerc bod rhaid gwneud tipyn o waith peirianyddol i ddatrys y broblem, a gan ystyried cyllideb y Cyngor Sir, roedd hyn annhebygol o ddigwydd.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*